

CABINET

Cofnodion cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams, and M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr J. Aviet, H.C. Hamilton a Dr. I.J. Johnson.

C314 CYHOEDDIAD –

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod Cabinet Bro Morgannwg.

Atgoffwyd yr Aelodau a'r Swyddogion bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr sicrhau, os oeddent yn cymryd rhan yn y Siambr ei hun am beidio ag actifadu eu meicroffon, ac i fynychwyr o bell 'fudo' eu hunain pan nad oeddent yn siarad i osgoi unrhyw sŵn cefndir neu atsain pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, ac os oedd cyfranogwr yn dymuno siarad a allai actifadu ei swyddogaeth cais i siarad briodol neu ddefnyddio'r botwm 'codi llaw' os yn mynychu o bell.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob trafodaeth yn cael ei chodi ar lafar ac nid drwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd.

C315 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill, 2024 fel cofnod cywir.

C316 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C317 RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL STRATEGOL FLYNYDDOL Y CABINET MAI 2024 I EBRILL 2025 A RHAGLENNI GWAITH CHWARTEROL Y CABINET – IONAWR I FAWRTH 2024 AC EBRILL I FEHEFIN 2024 (AG/BA) (CRAFFU – PAWB) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Aelodau o Raglen Gwaith Cychwynnol Strategol Blynyddol y Cabinet / Cyngor ar gyfer y cyfnod 12 mis Mai 2024 i Ebrill 2025, er mwyn hysbysu'r Aelodau o'r cynnydd hyd yma mewn perthynas â'r Cabinet. Rhaglenni Gwaith Chwarterol ar gyfer y cyfnod Ionawr i Fawrth 2024 ac i gadarnhau'r Rhaglen Waith Chwarterol ar gyfer Ebrill i Fehefin 2024.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar yr adroddiadau a fyddai'n cael eu hystyried dros y flwyddyn i ddod, gan gynnwys diweddariadau ynghylch y Gronfa Lefelu i Fyny, cynnydd ar y Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi ym mis Gorffennaf a'r Cynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2025-2030.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y Rhaglen Waith Strategol Flynyddol (ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad) ar gyfer y cyfnod Mai 2024 i Ebrill 2025 yn cael ei chymeradwyo a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- (2) CYTUNO ar y diweddariadau i Raglen Waith Chwarterol y Cabinet ar gyfer Ionawr i Fawrth 2024 sydd ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad.
- (3) CYMERADWYO Rhaglen Waith Chwarterol y Cabinet o fis Ebrill i fis Mehefin 2024 sydd ynghlwm yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000, is-ddeddfwriaeth a Chyfansoddiad y Cyngor wrth osod rhaglenni gwaith blynyddol.
- (2) Monitro cynnydd.
- (3) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Ebrill i Fehefin 2024.

C318 RHAGLEN DATBLYGU TAI – BARGEN PECYN YN HEN ORSAF HEDDLU'R BONT-FAEN, Y BONT-FAEN (DSCCT) (CRAFFU – CARTREFI CHYMUNEDAU DIOGEL) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Cabinet am gynnig i ymrwmo i gontract pecyn pecyn gyda Bluefield Land Ltd. ar gyfer

darparu 14 o fflatiau pobl hŷn newydd i'w rhentu'n gymdeithasol yn hen Orsaf Heddlu'r Bont-faen, y Bont-faen.

Dywedodd y Cynghorydd Perkes, yn yr arolwg diweddar 'Dewch i Siarad am Fywyd yn y Fro', mai un o'r tair blaenoriaeth gwasanaeth uchaf a restrwyd gan y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg oedd gallu prynu neu rentu cartref o ansawdd da, a'r byddai cynnig i'w ystyried ymhellach o dan adroddiad Rhan II yn gweithio tuag at fynd i'r afael â'r mater hwnnw.

Dywedodd yr Arweinydd fod angen mwy o lety i bobl hŷn ym Mro Morgannwg, gyda datblygiadau pellach ym Mhorth y Gorllewin a Phenarth.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi'r cynnig i ymrwmo i gontract pecyn pecyn gyda Bluefield Land Ltd ar gyfer darparu 14 o fflatiau un ystafell wely newydd ar gyfer pobl hŷn yn hen Orsaf Heddlu'r Bont-faen ac Uned Cyfeirio Disgyblion Y Daith, Y Bont-faen.

(2) Cymeradwyo'r gofyniad i wneud penderfyniadau ffurfiol ar symud y cynnig uchod yn ei flaen, fel rhan o'r ystyriaethau ehangach y manylwyd arnynt yn adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar y rhaglen.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Hysbysu'r Cabinet o'r bwriad i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi newydd sy'n eiddo i'r Cyngor.

(2) Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud i fwrw ymlaen â datblygiad arfaethedig cartrefi newydd y Cyngor.

C319 SYSTEM COFNODION GOFAL CYMDEITHASOL (DSCCT) (CRAFFU – BWY YN IACH A GOAL CYMEITHASOL) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet i ymrwmo i gytundeb gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT), Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPO) ynghylch caffael system gofal cymdeithasol newydd yn lle CareDirector (WCCIS) a fyddai'n dod i ddiwedd ei hoes erbyn mis Ionawr 2026.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod prosiectau'n aml yn esblygu dros amser o ran cwmpas a chyllid, ond roedd hi'n bwysig cydnabod y byddai cyllid yn dod gan Lywodraeth Cymru a bod disgwyl manylion am y cyllid hwnnw ac y byddai ar gael yn ystod amserlen yr ymarfer caffael.

Gofynnodd am i gytundeb y Cabinet gynnwys trydydd Argymhelliad i'r adroddiad a fyddai'n dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, i weithredu'r holl ddogfennau cyfreithiol sy'n ofynnol mewn perthynas â'r cytundeb i gaffael system gofal cymdeithasol newydd, a chytunwyd i hyn.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn synhwyrol gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer caffael y system newydd ac roedd yn edrych ymlaen at weld y mater yn datblygu.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad, yr Argymhelliad (3) ychwanegol a phob mater a phob goblygiad ynddynt

PENDERFYNWYD –

- (1) Rhoi cymeradwyaeth i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghylch caffael system gofal cymdeithasol newydd.
- (2) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac arweinydd caffael ym Mro Morgannwg drafod a chytuno ar delerau terfynol y cytundeb gyda'r Cyngorau eraill a gwneud y cytundeb hwnnw a'r trefniadau i'w roi ar waith.
- (3) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, i weithredu'r holl ddogfennau cyfreithiol sy'n ofynnol mewn perthynas â'r cytundeb i gaffael system gofal cymdeithasol newydd.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Sicrhau bod y Cyngor yn gallu caffael system drwy drefniant cydweithio.
- (2) Caniatáu i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol drafod telerau terfynol cytundeb y contract yn amserol.
- (3) Sefydlu contract cyfreithiol rhwymol rhwng y Cyngor, CBSMT, CBSRhCT a CBSPO.

C320 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig

fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

C321 RHAGLEN DATBLYGU TAI – BARGEN PECYN YN HEN ORSAF HEDDLU'R BONT-FAEN, Y BONT-FAEN (DSCCT) (CRAFFU – CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) (GWYBODAETH EITHRIEDIG - PARAGRAFFAU 13 A 14) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnig i ymrwmo i gontract cytundeb cynhwysol gyda Bluefield Land Ltd. ar gyfer darparu 14 o fflatiau newydd i bobl hŷn ar sail rhent cymdeithasol yn hen Orsaf Heddlu y Bont-faen, y Bont-faen.

Ychwanegodd y Cynghorydd Perkes fod rhestr aros bresennol Homes4U yn dangos bod 62 o ymgeiswyr yn aros am fflat un ystafell wely i bobl hŷn yn Ward y Bont-faen, felly byddai'r cynnig yn gweithio tuag at fynd i'r afael â'r angen hwnnw.

Dywedodd yr Arweinydd fod darpariaeth a ddarparwyd gynt yn Y Daith bellach yn cael ei darparu yng nghyfleuster Derw Newydd.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo priodoli cyn-Uned Cyfeirio Disgyblion y Daith i'r CRT am swm o £310,000 i hwyluso datblygiad ehangach safle Gorsaf Heddlu y Bont-faen.

(2) Os yw'r Cynllun yn ariannol hyfyw yn unol â Meini Prawf Arfarnu Hyfywedd Datblygiadau'r Cyngor, ac os cytunir ar werth tir ar gyfer yr Orsaf Heddlu ac os caiff Bluefield Land Ltd ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad; rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Dai a Gwasanaethau Adeiladau a'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151, i dderbyn y cynnig a swm y contract gan Bluefield Land Ltd a chytuno ar delerau ac amodau i ymrwmo i gontract cytundeb cynhwysol ar gyfer caffael hen Orsaf Heddlu y Bont-faen a datblygu'r safle yn ei gyfanrwydd.

(3) Yn amodol ar amodau Penderfyniad (2), rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd i gytuno, paratoi, gweithredu a chwblhau yn ôl yr angen yr holl gontractau a chytundebau sy'n ofynnol i gaffael a hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Cynllun ar hen safle Gorsaf Heddlu y Bont-faen. Byddai hyn yn cynnwys yr holl gytundebau trydydd parti angenrheidiol gyda'r Awdurdodau Statudol.

(4) Y Cyngor i gyhoeddi Hysbysiad Tryloywder Ex-Ante Gwirfoddol ("VEAT") mewn perthynas â'r contract cytundeb cynhwysol gyda Bluefield Land Ltd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd trwy borth GwerthwchiGymru.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Manteisio i'r eithaf ar ddarparu llety i bobl hŷn ar y safle ehangach.
- (2) Bwrw ymlaen â'r Cynllun a derbyn swm wedi'i dendro o Bluefield Land Ltd a dyfarnu contract iddo.
- (3) Caniatáu i'r Cyngor ymrwmo i gontract cytundeb cynhwysol gyda Bluefield Land Ltd.
- (4) Cydymffurfio â'r cyngor cyfreithiol allanol ynghylch cydymffurfio â chyfraith caffael cyhoeddus a lleihau'r risg i'r Cyngor o symud y Cynllun yn ei flaen.